# <u>HWB GLANRAFON 18-22.01.21</u>

Os ydych yn weithiwr allweddol/critigol, bydd Hwb ar gael yn yr ysgol bob dydd o 8.30 a.m. – 4 p.m. eto'r wythnos nesaf (o **18.01.21 – 22.01.21**). Bydd y gweithgareddau addysgol a uwch lwythir ar Teams a Seesaw yn cael eu cyflawni yn yr ysgol yn ystod y dyddiau hynny.

Os oes gwir angen i'ch plant ddefnyddio'r Hwb, gofynnir i chi eu cofrestru ar schoolcomms (sydd ar agor) **<u>erbyn hanner nos, ddydd Iau yma, Ionawr 14eg YN DDI-FFAEL os gwelwch yn dda</u>** (gan y bydd yn cau ar ôl yr amser hwn, a bydd gennnym yr hawl i wrthod mynediad i'r Hwb ar ôl hynny). Mae'n **HANFODOL** gwneud hyn er mwyn ein galluogi i drefnu rota staffio am yr wythnos. Pwysleisir mai **dim ond mewn sefyllfaoedd lle nad oes gofal plant arall ar gael i chi, y dylid defnyddio'r cyfleuster hwn.** Erfynnir yn daer arnoch i beidio anfon eich plant i'r ysgol os nad oes gwir angen e.e. os oes rhywun arall all ofalu am y plant neu os nad yw'r gweithwyr allweddol yn gweithio ar y diwrnod penodol, ni ddylent ddod i'r ysgol. Mae hyn yn fodd o leihau'r risg o ledaenu'r feirws, sydd â chyfraddau mor uchel ar hyn o bryd, yn ddi-angen.

Os nad ydych wedi defnyddio'r Hwb cyn hyn, ac heb gyflwyno tystiolaeth hyd yma o'ch statws fel gweithwyr allweddol, mae'n hanfodol eich bod yn gwneud hynny wrth gofrestru, a'i anfon ar e bost i <u>postglanrafon@hwbcymru.net</u> neu <u>HuwsE@hwbcymru.net</u> os gwelwch yn dda.

Llawer iawn o ddiolch am eich cydweithrediad fel arfer.

*If you are a key/critical worker, a Hwb facility will be available in school from 8.30 a.m. – 4 p.m. every day again next week (from **18.01.21 – 22.01.21**). The educational activities loaded onto Teams/Seesaw will be completed by these children in school.*

*If there is a real need for your child/ren to use the Hub, you are asked to register them on schoolcomms (which is now open) **<u>by midnight this Thursday, January 14th. WITHOUT FAIL please</u>** (as it will close at that time, and we'll have the right to refuse access to the Hub if this is not adhered to). It is **ESSENTIAL** to do this, in order to arrange a staffing rota for the week. It is emphasised that **it is in situations where there is no other childcare available, that the provision should be used.** You are urged not to send your child/ren to school unless there is a dire need to do so e.g. if someone else is at home to care for the children, or if the key/critical worker is not working on a particular day, the child/ren should not come to school. This is a means of lowering the risk of spreading the virus, which is at such a high rate at this time, unnecessarily.*

*If you have not used the Hub before now, and have not presented evidence of your key/critical worker status, it is essential that you do so when registering, and send it by e mail to <u>postglanrafon@hwbcymru.net</u> or <u>HuwsE@hwbcymru.net</u> please.*

*Very many thanks for your co-operation as usual.*

Yn gywir/*Yours sincerely,*

Ll.M.Jones (Miss) (Prifathrawes – *Headmistress)*